Torri amodau'r Ddeddf Diogelu Data
26 Chwefror 2014

Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 12 Chwefror 2014, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 11 Chwefror 2014 sef:

O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn wybod faint o weithiau y gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru dorri'r Ddeddf Diogelu Data yn 2013. Ym mhob achos hoffwn wybod ym mha ffordd y torrwyd y ddeddf, a pha gamau y cymrwyd yn erbyn yr aelod o staff oedd yn gyfrifol. Hoffwn hefyd wybod faint o achosion a gofnodwyd yn 2013 o staff yn camddefnyddio gwefannau cymdeithasol fel Facebook, Twitter etc, boed hynny yn y gweithle neu'r tu allan. Ym mhob achos, disgrifiwch beth oedd y camddefnydd, nodwch pa wefan a ddefnyddiwyd, a pha gamau a gymrwyd yn erbyn yr aelod o staff.

Yn ôl ein cofnodion, ni fu unrhyw achos o dorri'r Ddeddf Diogelu Data yn 2013. Cofnodwyd un achos o gamddefnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol yn 2013, a gofnodwyd fel "*inappropriate posting on Facebook which may have upset colleagues*" (postio deunydd amhriodol ar Facebook a allai fod wedi peri tramgwydd i gydweithwyr). O ran eich cais ynglŷn â "pha gamau a gymrwyd yn erbyn yr aelod o staff" a oedd yn gyfrifol, rwy'n defnyddio esemptiad adran 40(2) (gwybodaeth bersonol) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n esemptiad absoliwt. Mae'r esemptiad yn berthnasol oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn torri egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998.

Os hoffech wneud cwyn ynghylch y ffordd rwyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi anfon e-bost neu ysgrifennu ataf.

Rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n caniatáu i chi wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Mae manylion y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Caer SK9 5AF
e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi dilyn ein gweithdrefnau cwyno cyn ymdrin â chais o'r fath. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth http://www.informationcommissioner.gov.uk/.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips